------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 9 Hydref 2014**

Amser:
**09.15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk


## Agenda
MeetingTitle

**09.15 - 09.30 - Cyfarfod cyn y prif gyfarfod**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth 10 (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 - 33)

CYPE(4)-24-14 - papur 1

Bethan Jenkins AC, Aelod sy’n gyfrifol

### 3 Papurau i'w nodi

**Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) - llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (Tudalennau 34 - 37)
CYPE(4)-24-14 - papur 2 i’w nodi

**Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) – llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus** (Tudalennau 38 - 39)
CYPE(4)-24-14 – papur 3 i'w nodi

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 4

## 5 Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed - Ystyried yr adroddiad drafft (10.30 - 11.00) (Tudalennau 40 - 74)

CYPE(4)-24-14 – papur preifat 4

## 6 Gwaith briffio ar y gyllideb (11.00 - 12.00) (Tudalennau 75 - 99)

CYPE(4)-24-14 – papur preifat 5 – briffio
CYPE(4)-24-14 – papur preifat 6 – llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### CYPE(4)-24-14 – Papur 1

### Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

### Tystiolaeth gan : Bethan Jenkins AM

Rwy'n ysgrifennu cyn imi ymddangos gerbron y Pwyllgor am yr ail waith ar Hydref 9, 2014 pan fyddaf yn rhoi rhagor o dystiolaeth ynghylch fy *Mil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)*.

Teimlwn y byddai'n fuddiol ymdrin â rhai o'r dadleuon y mae'r Pwyllgor wedi'u clywed gan dystion eraill, yn cynnwys Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, ymdrinnir â llawer o'r pwyntiau hyn yn y Memorandwm Esboniadol neu byddant wedi cael eu trafod yn fy sesiynau tystiolaeth ar 17 Medi a 9 Hydref erbyn i'r Pwyllgor gynnal ei drafodaethau Cyfnod 1. Fodd bynnag, efallai y bydd o gymorth i'r Pwyllgor pe bawn yn cofnodi f'ymateb i'r dadleuon hynny.

Rwyf wedi ysgrifennu hefyd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn dilyn fy sesiwn tystiolaeth ar 22 Medi, i ymdrin â sawl pwynt a godwyd gan yr Aelodau. Er mai â materion cyfansoddiadol y mae â wnelo'r rhain yn bennaf, rwyf hefyd wedi amgáu copi o'r llythyr hwnnw rhag ofn y bydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor hwn wrth iddo graffu ar y Bil.

Nodaf fod rhai o'r rhai sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar wedi cwestiynu'r angen am y Bil. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, credaf fod y sefyllfa economaidd anodd sy'n parhau yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ynghyd â'r angen i well llythrennedd ariannol pobl a'u gallu i wneud y penderfyniadau gorau yn ôl eu hamgylchiadau, yn darparu cyd-destun cyffredinol sy'n golygu bod angen i'r Cynulliad hwn ymyrryd.

Credaf y byddai ychwanegu addysg ariannol at ofynion sylfaenol y cwricwlwm, ond gan ganiatáu hyblygrwydd o ran sut y gwneir hyn – boed hynny drwy ddarpariaeth bresennol neu ddarpariaeth sydd yn yr arfaeth, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Mathemateg neu TGAU Rhifedd – yn ychwanegu at ac yn cryfhau'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn y maes hwn yn hytrach na'i danseilio na thynnu'n groes iddo. Bydd yn rhoi lle mwy pendant a sicr i addysg ariannol yng nghwricwlwm ysgolion ac yn sicrhau ei bod wedi ei chloi yno i genedlaethau'r dyfodol.

O ran rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol a gwneud trefniadau i ddarparu cyngor ynglŷn â rheolaeth ariannol, bydd cryfhau'r sylfaen ddeddfwriaethol yn hyn o beth yn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i faterion cynhwysiant ariannol mewn ffordd lawer mwy strategol, gyda mwy o ffocws nag ar hyn o bryd. Nid wyf yn credu bod y status quo yn arwain at y canlyniadau yr ydym am eu gweld o ran llythrennedd ariannol pobl Cymru, ac mae'r Bil yn gam cyntaf mewn ymgais i fynd i'r afael â hyn.

Cyn imi symud ymlaen i ymdrin â gwahanol adrannau fy Mil, dylwn dynnu sylw at y ffaith fod y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno, llawer ohonynt yn cael eu cyflwyno fel pe baent ar waith, ac yn gweithio'n effeithiol, mewn gwirionedd yn newydd neu heb gael eu cyflwyno eto a – hyd y medraf weld – ni fu craffu arnynt eto ac nid ydynt wedi'u profi o ran effeithiolrwydd a'r gallu i'w cyflawni. Mae fy Mil i'n rhoi pwyslais mawr ar rwystrau a gwrthbwysau i sicrhau bod addysg a chymhwysedd ariannol yn cael eu darparu'n effeithiol gan nad wyf fi'n gallu dod o hyd i'r gwrthbwysau hynny ym modelau Llywodraeth Cymru. Os caf fi roi rhai enghreifftiau:

- Ni chynigir unrhyw dystiolaeth gan y Gweinidogion y bydd is-ddeddfwriaeth yn rhoi inni ymadawyr ysgol cymwys yn ariannol yn fwy effeithiol na deddfwriaeth sylfaenol;
- Nid yw'r gweinidogion yn amlinellu pa rwystrau a gwrthbwysau sydd wedi'u sefydlu – neu nad ydynt wedi'u sefydlu eto – i sicrhau bod cymhwysedd ariannol yn gwella;
- Dywed y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod yr angen am addysg ariannol yn cael ei "fodloni'n ddigonol", ond ni chynigia dystiolaeth i ategu'r datganiad hwn, sy'n groes i'r ymchwil Rhyddid Gwybodaeth a wnes i ymysg ysgolion uwchradd a chanfod bod y ddarpariaeth yn amrywio'n fawr;
- Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n dweud bod Llywodraeth Cymru "eisoes wedi manteisio ar bobl sydd â'r arbenigedd perthnasol i ddatblygu'r FfLlRhC a'r rhaglen astudio ar gyfer mathemateg". Byddwn wedi hoffi cael rhagor o fanylion am hyn.
- Dywedodd y Gweinidogion y bydd Estyn yn adrodd ar addysg ariannol "i ryw raddau" o dan y trefniadau presennol. Ni ddiffinnir "i ryw raddau". Dylent egluro beth maen nhw'n ei olygu wrth ddweud "i ryw raddau".
- Mae'r Gweinidogion wedi codi pryderon y bydd ymdrin fel hyn ag addysg ariannol (fel pwnc, er y byddwn i'n haeru ei bod yn sgil byw craidd) yn agor y

llifddorau i feysydd pwnc eraill. Yr hyn nad ydynt wedi'i ystyried yw a yw'r ffordd o weithredu yr wyf fi'n ei chymell yn welliant ar y trefniadau presennol ac y gallai'n hawdd drosglwyddo i feysydd dysgu eraill, yn enwedig os yw Llywodraeth Cymru'n awyddus i ddangos i rieni a'r byd ehangach ei bod yn gwireddu gwelliant amlwg o ran addysgu plant yng Nghymru.

I'm meddwl i mae'r gwahaniaethau hyn yn ymddangos yn dyngedfennol er mwyn i aelodau'r pwyllgor allu gweld pa ffordd o weithredu – ffordd Llywodraeth Cymru neu'r ffordd yr wyf fi'n ei chynnig – fydd yn arwain at welliant. Os yw'r Gweinidogion am haeru na fydd fy ffordd i'n effeithiol, rhaid iddynt ddangos mewn modd y gellir ei fesur sut bydd eu ffordd nhw'n effeithiol.

Isod, rwyf yn ymdrin â phwyntiau y mae'r Pwyllgor wedi'u clywed mewn tystiolaeth arall fesul adran o'r Bil.

**Adran 4 (y gofyniad cwricwlwm sylfaenol o ran addysg ariannol)**

*Yr angen am addysg ariannol mewn deddfwriaeth sylfaenol*

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dadlau bod yr angen am addysg ariannol yn cael ei fodloni'n ddigonol yn barod. Wrth wneud hynny, mae'n tynnu sylw at ddarpariaeth yn y cwricwlwm er 2008, ond amlygodd adroddiad thematig Estyn *Materion Ariannol* yn 2011 amrywiadau yn y ddarpariaeth. Mae'r ymatebion a gefais oddi wrth ysgolion o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*, wedi'u seilio ar flwyddyn academaidd 2012/13, yn codi amheuon difrifol pa un a yw'r newidiadau yn 2008 wedi cael effaith ddigonol.

Rwyf yn cydnabod y dylai cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd o fis Medi 2013 a chynnwys agweddau o addysg ariannol o dan yr elfen 'Materion Ariannol', yn ogystal â'r TGAU Llythrennedd newydd, wella pethau i ryw raddau. Fodd bynnag, rwyf am ddarparu sylfaen ddeddfwriaethol gryfach ar gyfer cynnwys yr agweddau hyn o addysg ariannol yn y cwricwlwm cenedlaethol.

Cynigiaf wneud hyn drwy roi 'addysg ariannol' ar wyneb *Deddf Addysg 2002* (sy'n nodi gofynion y Cwricwlwm Sylfaenol). Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion newid cynnwys y cwricwlwm drwy wneud gorchmynion o dan adran 108 o *Ddeddf Addysg 2002*. Gwneir y gorchmynion hyn drwy 'weithdrefn negyddol' ac felly nid oes fawr iawn o graffu arnynt gan y Cynulliad (na'r cyhoedd).

Yn fy marn i, mae addysg ariannol yn rhy bwysig i ddyfodol ein pobl ifanc i’w gadael i bŵer gweinidogol i wneud gorchymyn. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig hi, amlygodd y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi fod gan Weinidogion Cymru bwerau eisoes i newid y cwricwlwm heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol ychwanegol. Efallai fod gan Weinidogion Cymru’r pŵer i wneud newidiadau felly ond nid wyf am ddibynnu ar hynny. Hyd yma, nid yw’r Gweinidogion wedi arfer y pwerau hynny i ddarparu ar gyfer addysg ariannol mewn deddfwriaeth sylfaenol ac nid oes unrhyw awgrym eu bod yn bwriadu gwneud hynny’n fuan.

Dadleuodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor y byddai’r Bil yn ‘gadael addysg ariannol mewn gwannach sefyllfa na’r un bresennol’ gan y byddai’n ‘ein tywys o sefyllfa lle mae cynnwys yr addysg ariannol wedi ei ragnodi mewn Rhaglen Astudio Mathemateg, i sefyllfa lle byddai addysg ariannol yn “bwnc” statudol mewn rhan o’r cwricwlwm sylfaenol na cheir rhagnodi ei gynnwys’.

Rwyf am ei gwneud yn glir nad yw’r Bil mewn unrhyw ffordd yn ceisio dadwneud yr hyn sy’n digwydd eisoes o ran addysg ariannol a ‘thorri ar draws’ yr hyn sy’n statudol ar hyn o bryd, fel y dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor. Nid wyf am chwalu’r cynnydd sydd wedi’i wneud a ‘chychwyn eto’ fel mae’r Gweinidog fel pe bai’n awgrymu. Rwyf yn synnu’n fawr, felly, fod y Gweinidog fel pe bai’n credu bod y Bil yn groes i’r hyn y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud; i’r gwrthwyneb, rwy’n ceisio adeiladu ar y gwaith sy’n mynd rhagddo yn y maes hwn.

O ran canlyniadau ychwanegol, bydd y Bil yn creu ffocws ar ‘addysg ariannol’, gan gryfhau a chynyddu’i statws yn y cwricwlwm, yn hytrach na bod sawl agwedd sy’n ymwneud ag addysg ariannol wedi’u cynnwys yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sef y sefyllfa ar hyn o bryd. Fel y dywedais uchod, gallai’r cynnwys hwnnw gael ei newid a’i ddileu ar unrhyw adeg drwy is-ddeddfwriaeth. I osgoi dryswch rwyf am ei gwneud yn glir nad wyf yn awgrymu dysgu addysg ariannol fel pwnc ar wahân. Rhagwelir y caiff ei chyflwyno drwy fecanweithiau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru (neu ar fin cael eu defnyddio), megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a rhifedd Mathemategol, er, fel yr wyf yn pwysleisio dro ar ôl tro, bydd iddi sylfaen gryfach mewn deddfwriaeth sylfaenol; mewn geiriau eraill bydd iddi “asgwrn cefn” deddfwriaethol. Nodais yn arbennig fel y disgrifiodd ASCL, ar Medi 25, ymateb llawer yn y sector i gynlluniau newydd, a chredaf fod hyn yn crisialu pam fod angen deddfwriaeth sylfaenol:

> *“I’m going to wait for a minute here, because I think their interest will go elsewhere. I’m going to wait to see how long-term this commitment is and how long I will be expected to give time in my very fixed, very limited timetable to this. People wait when the initiative is a political one. They wait to see how consensual it is, whether it is a game for the long-term, what are the pressures upon me to deliver some activity on it.”*

Nid wyf am i’r gwaith o addysgu’r sgil byw craidd hwn fod yn ddibynnol ar ymrwymiad gwleidyddol, nac ar flaenoriaethau neilltuol, y Gweinidog ar y pryd. Nid yw’n syndod nad yw Gweinidogion yn gweld yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol – maen nhw’n fodlon mae’n debyg o wybod y gallant ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i wneud newidiadau fel y gwelant yn dda. Efallai, fodd bynnag, fod y Cynulliad a phobl Cymru yn gweld pethau’n wahanol a’u bod am i addysg ariannol fod â llawer sicrach lle yn y cwricwlwm. Dyna fy safbwynt i, yn sicr.

Rwy’n cydnabod bwriadau da Llywodraeth Cymru o ran addysg ariannol, ond nid wyf am i addysgu’r pwnc hwn yn ein hysgolion gael ei adael i chwiw Gweinidogion yn y llywodraeth hon na llywodraethau’r dyfodol. Rwyf am ddiogelu addysg ariannol i’r dyfodol. Drwy ei rhoi mewn deddfwriaeth sylfaenol bydd yn llawer anos gwanhau’r ddarpariaeth neu’i thynnu o’r cwricwlwm yn y dyfodol. Bydd rhaid i unrhyw lywodraeth sydd am wneud hynny gyfiawnhau ei rhesymeg drwy Fil y bydd y Cynulliad yn craffu’n llawn arno.

*Amseriad y Bil ac adolygiad Donaldson*

Gwn fod y Pwyllgor wedi clywed llawer am yr adolygiad o asesu a’r cwricwlwm cenedlaethol y mae’r Athro Graham Donaldson yn ymgymryd ag ef, ac a yw hyn yn golygu nad nawr yw’r amser iawn ar gyfer fy Mil i. Rwy’n cytuno ei bod yn bwysig cysylltu unrhyw newidiadau ag agenda ehangach Adolygiad Donaldson ac fel y dywedais wrth y Pwyllgor ar Fedi 17 rwyf wedi cwrdd â’r Athro Donaldson ac wedi trafod fy nghynigion gydag ef. Nodaf i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau dynnu sylw at y ffaith fod cylch gwaith yr adolygiad yn cynnwys y cwricwlwm cyfan, gan awgrymu bod hyn yn cynnwys sgiliau ariannol, ond fy nadl i yw, gan nad yw addysg ariannol yn cael ei chrybwyll yn benodol, na ellir dibynnu o reidrwydd ar adolygiad Donaldson i symud addysg ariannol yn ei blaen. Nid wyf yn deall dadl y Gweinidog fod y Bil a’r Memorandwm Esboniadol yn camddeall Adolygiad Ni fyddwn erioed wedi disgwyl i’r adolygiad fanylu ar gynnwys ond nid oes gwarant o fath yn y byd y bydd yr adolygiad hwn yn gwireddu f’amcanion gan na ofynnwyd iddo edrych yn benodol ar addysg

ariannol, yn wahanol i feysydd eraill o'r cwricwlwm y cafwyd adroddiadau ac argymhellion arnynt yn y blynyddoedd diwethaf

Heblaw hyn, mae'r Gweinidog yn methu fy mhwynt. Dweud oeddwn i fod argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn 2010 y dylai addysg ariannol fod yn orfodol drwy ABCh ac y dylai'r pwyslais ar addysg ariannol gael ei adolygu'n rheolaidd yn amlwg yn ei absenoldeb oddi ar y rhestr o adolygiadau ac argymhellion blaenorol y gofynnwyd yn benodol i'r Athro Donaldson ei hystyried. Dywed y Gweinidog fod fy meirniadaeth yn 'annheg', ond ni chredaf ei fod wedi ymdrin yn foddhaol â'r cwestiwn hwn. O ran pwynt y Gweinidog fod fy Mil yn ceisio 'achub y blaen ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn, gan orfodi ychwanegiad at y ddeddfwriaeth, beth bynnag fo casgliadau'r adolygiad hwnnw', tynnaf sylw'r Pwyllgor at yr hyn a ddywedodd y Gweinidog wrth ateb cwestiwn llafar am TGCh ar Fedi 17, 2014:

> *"We are not standing still while Professor Donaldson's report is being prepared, but we are progressing and taking forward work in this area."*

Gwnaeth y Gweinidog sylwadau tebyg pan holais ef am y mater hwn ar Fedi 30.

*Cwricwlwm / amserlen orlawn*

Hoffwn ymdrin â'r cwestiwn o ganfod lle mewn cwricwlwm ac amserlen orlawn, rhywbeth a godwyd yn ôl a ddeallaf gan yr NAHT a'r ASCL. Gallwn ddeall y pwynt hwn pe bai'r Bil am ychwanegu addysg ariannol fel pwnc arall i gael ei ddysgu ar wahân yn y cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn gwneud hyn a, thrwy beidio â rhagnodi sut yn union y dylid cyflwyno'r hawl gwricwlaidd, bydd consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion yn gallu gweithredu hyn yn hyblyg, ar sail canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, efallai mai drwy ffrydiau sydd eisoes yn rhan o'r cwricwlwm y câi hyn ei wneud. Fe'm synnwyd hefyd o glywed sylw ADEW fod deddfu fel hyn yn rhwystr i hyblygrwydd gan mai un rheswm pam mae'r Bil yn rhoi'r gofyniad yn y cwricwlwm sylfaenol yn hytrach na phennu cynnwys drwy'r cwricwlwm cenedlaethol yw er mwyn rhoi'r hyblygrwydd hwnnw i ysgolion.

*I grynhoi*

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n haeru bod y newid yn ymddangos yn 'arwynebol' tra wyf fi o'r farn y byddai gosod hawl i addysg ariannol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth yn newid gwerth chweil. Os yw addysg ariannol, fel y dywed y Gweinidog, eisoes yn cael ei darparu ac mai

arwynebol yn unig fydd y newid yn y Bil, nid wyf yn deall datganiad y Gweinidog y bydd ‘ysgolion yn wynebu gofyniad addysgu ychwanegol’. Rwy’n derbyn y bydd yn bwysig sicrhau bod y datblygiad proffesiynol parhaus a’r trefniadau hyfforddi iawn ar gael i ysgolion ond gellid dadlau mai cyfyngedig yw’r angen os ydym yn derbyn bod addysg ariannol eisoes yn cael ei darparu i raddau.

I ddod yn ôl at haeriadau’r Gweinidog Addysg a Sgiliau, ni fyddai’r Bil yn tarfu ar y ffordd ymlaen sy’n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru er darparu addysg ariannol, drwy un ai’r cwricwlwm cenedlaethol neu’r cwricwlwm sylfaenol, neu’r naill a’r llall. Byddai’n sicrhau nad yw’n rhywbeth y gellid cwtogi arno neu’i ddileu’n gyfan gwbl, ar chwiw Gweinidogion neu am fod pwysau eraill yn gryfach. I grynhoi, felly, fy haeriad i yw bod addysg ariannol yn berthnasol nid dim ond mewn cyfnod o ddirwasgiad neu ddirywiad economaidd; rhaid iddi fod yn barhaol a chyson a chredaf mai rhoi hawl gwricwlaidd i blant mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy fy Mil i yw’r ffordd orau o gyflawni hyn.

**Adran 5 (y gofyniad i ymgynghori ynghylch cynnwys y cwricwlwm o ran addysg ariannol)**

Credaf fod sylwadau’r Gweinidogion yn eu papurau ysgrifenedig i’r Pwyllgor yn camddeall y bwriad o ran sut y byddai adran 5 y Bil yn gweithio’n ymarferol. Nid yw’r Bil yn gwneud addysg ariannol yn bwnc craidd nac yn bwnc sylfaen; yn wir, ni fydd yn bwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol. Nid yw Adran 5, felly, yn ceisio gosod targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau astudio i bwnc ‘addysg ariannol’ fel y mae’r Gweinidogion yn awgrymu. Ym mhob tebygrwydd, bydd y gofyniad cwricwlwm sylfaenol o ran addysg ariannol yn cael ei addysgu drwy bynciau’r cwricwlwm cenedlaethol, fel y mae ar hyn o bryd i raddau. Er enghraifft, mae addysg rhyw, sydd hefyd yn eitem o fewn y Cwricwlwm Sylfaenol, yn cael ei haddysgu ar hyn o bryd, yn rhannol o leiaf, drwy Wyddoniaeth. Bydd addysg ariannol yn gweithio mewn ffordd debyg os caiff fy Mil i ei basio.

Roedd lleoli’r gofyniad cwricwlwm am addysg ariannol o fewn y cwricwlwm sylfaenol yn benderfyniad polisi bwriadol er mwyn caniatáu hyblygrwydd o ran sut i’w gyflwyno. Nid yw llythrennedd ariannol yn bwnc wedi’i gyfyngu i ddim ond mathemateg neu rifedd ac rwy’n rhagweld y bydd angen nodi cyfleoedd perthnasol i ddysgu’r sgil byw craidd hwn ar draws y cwricwlwm. Yn amlwg, byddai o fudd i ysgolion i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau anstatudol (fel a wna gyda rhannau eraill o’r cwricwlwm sylfaenol fel ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith). Fodd bynnag, gallai edrych yn

rhyfedd pe bai'r Bil yn mynnu yr ymgynghorir ynglŷn â chynnwys y canllawiau anstatudol hynny gan eu bod yn ganllawiau nad oes gofyniad ar Lywodraeth Cymru i'w cynhyrchu.

I grynhoi, effaith adran 5 yw, lle mae a wnelo pwnc sylfaen (o dan y cwricwlwm cenedlaethol) ag addysg ariannol, y bydd gofyn i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rhai sydd ag arbenigedd perthnasol wrth benderfynu ar y targedau cyrhaeddiad, y rhaglenni astudio a'r trefniadau asesu i'r pwnc sylfaen hwnnw. Pe bai hynny o gymorth i'r Pwyllgor byddwn yn hapus i ystyried gwelliant i adran pump i'w gwneud yn glir mai'r bwriad yw cyfyngu'r effaith i orchmynion o dan *Ddeddf Addysg 2002* (adran 108) mewn perthynas â phynciau sylfaen. Byddwn hefyd yn barod i ddiwygio'r Memorandwm Esboniadol ar y cyfnod priodol i wneud hyn yn gwbl glir.

**Adran 6 (y gofyniad i ddarparu adroddiad ar addysg ariannol)**

Cyfarfûm ag Estyn wrth baratoi'r Bil i drafod y gofyniad yn adran 6 i ddarparu adroddiad. Cydymdeimlaf â'r ddadl fod adroddiad blynyddol braidd yn feichus ac y byddai adroddiadau llai mynych yn fwy ymarferol o safbwynt casglu data ac yn fwy buddiol er dadansoddi tueddiadau. Rwyf felly yn barod i ailystyried y gofyniad blynyddol am adroddiad o'r fath a byddaf yn dod â gwelliant i'r perwyl hwnnw gerbron yng Nghyfnod 2. Ar ôl gwrando ar y dystiolaeth a roddwyd gerbron gan Estyn ac yn wir gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, rwyf wedi f'argyhoeddi y gellir gwneud hyn yn effeithiol bob **tair blynedd**.

Fodd bynnag, rwy'n dal o'r farn y bydd yn bwysig iawn monitro a darparu adroddiadau ar yr effaith y mae addysg ariannol yn ei chael, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar ar ôl y newid deddfwriaethol. Roedd hon yn farn a fynegwyd gan lawer o'r rhai a ymatebodd i'm hymgynghoriad ac rwy'n deall bod Cyngor Ar Bopeth Cymru yn wir am i ragor o fanylion am yr agwedd hon gael eu rhoi ar wyneb y Bil.

Rwy'n deall bod y Pwyllgor wedi derbyn barn gan rai yn cwestiynu pam fod angen adroddiad ar wahân ar addysg ariannol yn benodol. Er enghraifft, rwy'n deall bod ADEW'n teimlo bod hyn eisoes yn cael sylw o fewn gofynion eraill o eiddo Estyn a thynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau sylw at yr adroddiad blynyddol cyffredinol sy'n cael ei gyhoeddi'n awr gan Estyn bob blwyddyn. Cyfeiriodd y Gweinidog at brosesau 'cryfach' eisoes ar gyfer asesu sgiliau addysg ariannol dysgwyr ond rwyf o'r farn bod y rhain yn amwys iawn ac nad ydynt yn ymdrin yn ddigon penodol ag addysg ariannol. Nid wyf yn credu bod hyn yn ddigonol ac, er gwaethaf bwriadau

gorau Estyn a'r sylw i fanylder drwy'r mecanweithiau adrodd cyffredinol presennol, credaf fod gofyniad adrodd penodol o ran addysg ariannol yn angenrheidiol. Rwy'n ymwybodol o ofynion adran 20 o *Ddeddf Addysg 2005*. Fodd bynnag, bydd darpariaeth yn fy Mil ar i Estyn (neu Weinidogion Cymru) gyflwyno adroddiadau'n benodol ar addysg ariannol. Nid wyf yn ystyried hyn yn ddyblygu; mesur diogelu ychwanegol yw.

Y prif benderfyniad arall i'w wneud o ran sut mae bodloni'r gofyniad adrodd yw pa un i gynnwys hyn yn rhan o bob arolygiad o sefydliad a wneir gan Estyn ynteu a ddylid llunio adroddiad thematig, fel a wnaed gyda *Materion Ariannol* yn 2011. Nid yw'r Bil, wrth gwrs, yn rhagnodi hyn a mater i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag Estyn o bosibl, fydd penderfynu sut i'w gyflawni'n fwyaf effeithiol. Rwy'n agored i'r ddadl y gellid cyflawni hyn drwy adroddiad thematig yn hytrach nag arolygiadau, er nad yw fy Mil yn pennu pa opsiwn y dylid ei ddilyn. Mae'r naill opsiwn a'r llall, fodd bynnag, wedi'i ystyried a'i gostio yn y Memorandwm Esboniadol.

Nodaf bryder y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod adran 6(3) yn pennu bod rhaid rhoi cyfarwyddyd o leiaf dri mis cyn y bydd angen yr adroddiad. Nodir nad yw Estyn wedi codi hyn gyda mi fel pryder, ond rwy'n barod i ystyried newid y cyfeiriad at "dri mis" i gyfnod hwy.

**Adran 7 (dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i ddarparu addysg ariannol i blant sy'n derbyn gofal)**

Deallaf i'r Pwyllgor glywed gan ADEW fod y ddyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal ganddynt yn cael hawl gwricwlaidd i addysg ariannol yn ddianghenraid. Hoffwn ailadrodd yr hyn yr wyf wedi'i ddweud yn y Memorandwm Esboniadol, sef y bydd plant sy'n derbyn gofal yn cael addysg ariannol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen beth bynnag, fel pob plentyn mewn ysgolion a gynhelir, drwy'r gofyniad cwricwlwm yn adran 4. Fodd bynnag, mae adran 7 yn gweithredu fel mesur diogelu ychwanegol drwy roi i awdurdodau lleol, fel rhieni corfforaethol, ddyletswydd arbennig yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Yn ei hanfod, amddiffyniad dwbl yw hyn i grŵp o blant sydd, y gellid dadlau, ac arnynt fwy o angen addysg ariannol ac mae'n ategu rôl awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol i'r plant hynny.

**Adran**

**8 (awdurdodau lleol i gyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol) ac adran 10 (canllawiau ar strategaethau cynhwysiant ariannol)**

*Cyflawni o dan y ddeddfwriaeth bresennol*

Nodaf fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn dweud yn ei llythyr at y Pwyllgor nad yw'n credu y bydd y Bil yn "arwain at unrhyw beth ychwanegol i'r hyn sy'n cael ei gyflenwi ar hyn o bryd".

Mae'n haeru ymhellach fod modd gwireddu'r cynigion ynglŷn â strategaethau cynhwysiant ariannol drwy ddefnyddio deddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, mae'r Gweinidog yn awgrymu y gallai awdurdod lleol ddefnyddio pwerau llesiant cyffredinol o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* i lunio strategaeth o'r fath, and states that guidance under that Act "could potentially deal with the promotion of financial inclusion".

Byddwn yn cytuno â'r Gweinidog fod y pwerau, yn dechnegol, yn bodoli i awdurdodau lleol fabwysiadu'u strategaethau cynhwysiant ariannol eu hunain. Rwy'n cydnabod hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn gwneud llawer i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, mae'r gweithredu yn amlwg yn ddarniog ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn, fel yr amlygir yn y Memorandwm Esboniadol, a dyna pam rwyf yn credu bod angen cryfhau'r fframwaith cyfreithiol.

Yn ei hymateb i adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad ar gynhwysiant ariannol yn 2010, hoffwn dynnu sylw at y ffaith i Lywodraeth Cymru ei hun addef y byddai'n "hoffi gweld mwy o ymrwymiad strategol gan awdurdodau lleol" i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Nid yw'r hinsawdd economaidd a'r newidiadau i fudd-daliadau lles ond wedi pwysleisio'r angen i wneud mwy yn y maes hwn. Mae'r ystadegau ym mharagraffau 25-30 o'r Memorandwm Esboniadol yn tanlinellu difrifoldeb y mater ymhellach.

Gall y Gweinidog ddweud bod y sylfaen gyfreithiol eisoes yn bodoli i alluogi awdurdodau lleol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol, ond y realiti yw nad yw hyn yn digwydd i raddau digonol ar draws Cymru. Felly, rwy'n awyddus i sefydlu dyletswydd yn y gyfraith a fydd yn gorfodi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar gynhwysiant ariannol mewn ffordd fwy strategol. Dyna pam y bydd fy Mil i'n ychwanegu at yr hyn sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac yn arwain at well canlyniadau yn y cyswllt hwn.

Yn ei llythyr, nodaf hefyd fod y Gweinidog yn dweud y gallai canllawiau o dan With regard to the ability to issue guidance on promoting *Ddeddf Llywodraeth Leol* o bosibl ymdrin â hyrwyddo cynhwysiant ariannol, Eto, nid wyf yn amau bod y pŵer yn bodoli i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, y realiti yw nad ydynt wedi gwneud hynny nac wedi dangos unrhyw arwydd eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Yn wir, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref 2014, cadarnhaodd y Gweinidog yn bendant ichi nad oedd ganddi unrhyw fwriad i gyhoeddi canllawiau yn y cyd-destun hwn, gan ei bod yn credu bod sylw digonol yn cael el roi i'r mater  yn barod. Ni wnaf ond nodi nad ydym wedi cael Adroddiad Blynyddol gan Lywodraeth Cymru ar ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hi ei hun er mis Rhagfyr 2010. Mae'r Strategaeth hon yn amlygu mor bwysig yw hi i awdurdodau lleol yrru'r agenda cynhwysiant ariannol ymlaen, ond mae'n dal yn aneglur beth mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i annog awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn yn fwy effeithiol ar lefel strategol.

Yn olaf ar y pwynt hwn, hoffwn gyfeirio at Fil Llywodraeth Cymru ei hun, *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* (Bil a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad gan y Gweinidog ei hun). Mae'r Bil hwn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi strategaethau gyda'r nod o roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nid oes dim i atal awdurdodau lleol rhag mabwysiadu strategaethau i'r perwyl hwn yn barod o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Yn wir, mae'n debyg y gallent fabwysiadu strategaeth o'r fath o dan yr un pwerau llesiant yn *Neddf Llywodraeth Leol 2000* ag a ddyfynnwyd gan y Gweinidog mewn perthynas â'm Bil i.

Dywed Memorandwm Esboniadol y *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fabwysiadu'u strategaethau eu hunain er mwyn "sicrhau canolbwynt strategol a gwell ymateb i fynd i'r afael â['r] materion". Credaf fod fy Mil i'n ceisio cyflawni rhywbeth tebyg iawn ym maes cynhwysiant ariannol. Fel y Gweinidog a gyflwynodd y *Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* gerbron y Cynulliad, fe'i caf yn anodd deall ei sylwadau ar yr angen am fy Mil o ystyried yr elfennau cyffredin rhwng y ddau Fil yn y cyd-destun hwn.

*Cyflawni drwy fframwaith sy'n bodoli'n barod*

Rwy'n ymwybodol bod rhai tystion sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor wedi awgrymu, yn hytrach na mabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol, y gallai

awdurdodau lleol ymdrin â'r agenda cynhwysiant ariannol fel rhan o fframweithiau a methodolegau sy'n bodoli'n barod. Mae llawer wedi cyfeirio at gynllluniau integredig sengl fel mecanwaith cyflawni yn y cyswllt hwn.

Rwy'n ymwybodol hefyd o'r pryderon y gallai fod perygl y cyfyngir y mater hwn i seilo os mabwysiadir strategaeth cynhwysiant ariannol ar wahân, ac mai'r hyn sydd ei angen yw ymrwymiad ar lefel strategol a chorfforaethol o fewn cynghorau.
Rwy'n llwyr ymwybodol o natur drawsbynciol cynhwysiant ariannol a'r angen i ymdrin â'r mater yn gyfannol. Fodd bynnag, byddai f'ymateb i'r pryderon uchod yn driphlyg.

Yn gyntaf, nid wyf yn gweld sut y byddai rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol yn rhwystr rhag ymdrin â'r mater yn gyfannol ar draws awdurdod lleol, neu fel rhan o waith ehangach megis cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi. Nod polisi'r rhan hon o'r Bil yw ceisio sicrhau bod dyletswydd yn y gyfraith i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol fel nad ydynt yn cael eu hanwybyddu wrth i awdurdod lleol ymgymryd â'i waith. Mater i'r awdurdod lleol yw sut mae'n gweithredu ei strategaeth, ac nid yw'r Bil yn rhagnodol yn y cyswllt hwn. Yn wir, byddwn yn mawr obeithio y byddai awdurdod lleol yn ymdrin â'r materion hyn mewn ffordd drawsbynciol a byddwn yn disgwyl i hyn gael ei bwysleisio mewn unrhyw ganllawiau. Hefyd, byddwn yn gobeithio y bydd y gofyniad yn adran 8(4) ar i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran gweithredu'i strategaeth cynhwysiant ariannol yn sicrhau bod y cyngor llawn yn cymryd perchenogaeth o'r strategaeth a'r ffordd y'i rhoddir ar waith.

Yn ail, o ran canllawiau, byddwn yn cyfeirio'r Pwyllgor at baragraffau 176 ac 177 o'r Memorandwm Esboniadol. Yn yr un ffordd ag y mae canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn 2012 (*Cydamcanu - Cydymdrechu*) yn galluogi awdurdodau lleol i gyfuno gwahanol strategaethau a chynlluniau mewn cynlluniau integredig sengl, ni allaf weld unrhyw reswm pam na allai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau tebyg (o dan adran 10 o'm Bil i) yng nghyswllt y ddyletswydd i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol.

Fel enghraifft, gallai hyn fod yn debyg iawn i'r ffordd y mae modd ar hyn o bryd i'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i gynhyrchu strategaeth gymunedol o dan *Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009* gael ei chyflawni drwy'r broses cynllunio integredig sengl, o dan ganllawiau *Cydamcanu - Cydymdrechu*. O dan fy Fil i, yn ddamcaniaethol gellid cyhoeddi canllawiau tebyg fel bod modd i'r ddyletswydd i

gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol gael ei chyflawni drwy brosesau cynllunio strategol, ehangach, awdurdod lleol (boed hynny drwy'r cynllun integredig sengl neu'r hyn a fydd efallai yn ei ddisodli o dan *Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru),* neu, yn wir, fel arall). Mae'r opsiwn hwn yn bodoli yng nghyswllt canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 o'm Bil i.

Yn drydydd, byddai wedi bod yn anodd gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau i ystyried materion cynhwysiant ariannol fel rhan o gynllunio strategol ehangach gan nad oes deddfwriaeth benodol yn sail i gynlluniau integredig sengl ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r ddadl fwy sylfaenol y byddai gosod dyletswydd gyffredinol, drosfwaol, yn cysylltu cynhwysiant ariannol â phrosesau cynlluniau strategol ehangach yn rhy amhendant ac amwys i wireddu amcanion polisi'r Bil. Credaf fod angen nodi rhywbeth mwy pendant a phenodol yn y gyfraith, rhywbeth a fydd yn gorfodi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar y mater hwn. Dyna pam yr wyf wedi cymryd y trywydd hwn yn y Bil.

*Cyflawni drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*

Yn nhrydydd paragraff Atodiad A at ei llythyr i'r Pwyllgor, rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog Cymunedau a Threthu Tlodi wedi awgrymu y gallai awdurdodau lleol ymdrin â materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a thrwy "asesiadau llesiant lleol" a thrwy "osod ... amcanion yn y Cynlluniau Llesiant Lleol". Er nad eglurwyd hyn yn ei llythyr, rwy'n sylweddoli bod y Gweinidog yn cyfeirio at *Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* yma.

Rwy'n sylweddoli hefyd fod tystion eraill fel y Gwasanaeth Cynghori Ariannol hefyd wedi argymell ymdrin â chynhwysiant ariannol drwy *Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*, yn hytrach na thrwy gyflwyno strategaethauAsFodd bynnag, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid oes dim ym *Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* sy'n cyfeirio'n benodol at gynhwysiant ariannol nac addysg ariannol. Felly, heb y darpariaethau yn fy Mil i, rwy'n poeni mai'r status quo fydda'n parhau ac na fyddai dim yn newid yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â materion cynhwysiant ariannol.

Nododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol mewn llythyr ataf y byddai'n 'disgwyl' i fyrddau gwasanaethau lleol ystyried cynhwysiant ariannol o dan *Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* a bod hyn yn rhywbeth y gellid ei roi mewn canllawiau. Fodd bynnag, heb rywbeth penodol yn y gyfraith, nid oes gwarant

y bydd unrhyw beth yn newid a'm nod i yw sicrhau bod y ddyletswydd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol.

*Manteision bod â strategaeth cynhwysiant ariannol*

Er fy mod yn ymwybodol o amheuon rhai tystion ynglŷn â phriodoldeb ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau cynhwysiant ariannol, hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw'r Pwyllgor at sawl cyflwyniad i'm hymgynghoriad gwreiddiol a ddylanwadodd ar y drefn sy'n cael ei chynnig yn y Bil.

Roedd cryn gefnogaeth gan lawer o'r rhai a ymatebodd i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu'n well yn strategol ar gynhwysiant ariannol, a chytunai llawer y byddai cynhyrchu strategaeth yn ffordd syml a rhesymegol o sicrhau bod hynny'n rhan annatod o gyflenwi gwasanaethau.

Tynnodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn arbennig sylw at y ffaith bod cymdeithasau tai eisoes yn llwyddo i gyflawni o ran eu hagenda cynhwysiant ariannol, ond fod mabwysiadu strategaethau ffurfiol wedi gwneud iddynt adolygu'u mecanweithiau mewnol a ffurfioli trefniadau gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill. Dywed y Grŵp fod hyn wedi helpu i adeiladu ar waith blaenorol a rhoi mwy o eglurder o ran rhoi rhaglen cynhwysiant ariannol effeithiol ar waith.

Ymysg eraill a oedd o blaid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol roedd yr NUT, y Money Charity, y Brifysgol Agored, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Caerfyrddin a Shelter Cymru.

Nodaf ymhellach fod tystiolaeth ABCUL (Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig) i'r Pwyllgor o blaid y drefn weithredu sydd yn y Bil ac mae'n cyfeirio at fanteision sylweddol rhoi strategaeth cynhwysiant ariannol drawsbynciol, gynhwysfawr, ar waith mewn ardal leol. Yn y cyswllt hwn mae'n cyfeirio at astudiaeth a wnaed eisoes ar ran Cyngor Dinas Leeds a oedd yn dangos, am bob £1 yr oedd y cyngor yn ei gwario ar ei strategaeth cynhwysiant ariannol, fod budd o £8.40 yn cael ei greu i'r economi ranbarthol ar ffurf arbed llog, troi llai o denantiaid o'u tai a mesurau eraill. Nodaf fod tystiolaeth Cyngor Ar Bopeth hefyd yn datgan bod "buddsoddi mewn rhaglenni gallu ariannol hefyd yn dod ag elw ariannol gwirioneddol, nid yn unig i aelwydydd unigol ond i'r economi leol".

**Adran 9 (cynnwys strategaeth cynhwysiant ariannol)**

*Eglurder y darpariaethau*

Nodaf fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn awgrymu yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor fod rhai o'r darpariaethau yn adran 9, sy'n ymdrin â chynnwys strategaeth cynhwysiant ariannol, yn amwys.

Yn gyntaf, nodaf fod y Gweinidog yn pryderu ynglŷn â'r gofyniad i nodi mewn strategaeth sut y bydd yr awdurdod lleol yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol unigolion, yn enwedig gan fod cynhwysiant ariannol yn cael ei ddiffinio fel mynediad at wasanaethau ariannol ac addysg ariannol am gost resymol. Mae'r Gweinidog yn pryderu ynglŷn â'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a chyrff masnachol yn y cyswllt hwn, a pha un a allai awdurdodau lleol fod yn hyrwyddo cynnyrch masnachol.

Ni fydd gofyn i awdurdodau lleol hyrwyddo cynnyrch ariannol penodol. Yr hyn yr wyf am iddynt ei hyrwyddo yw dealltwriaeth o wasanaethau ariannol fel bod dinasyddion yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Yn ail, dywed y Gweinidog ei bod yn ansicr ynglŷn ag ystyr "goblygiadau ac effeithiau masnachu ar y stryd". Nid wyf yn deall pam y mae'r Gweinidog yn codi amheuaeth ynglŷn â'r defnydd o'r termau hyn. Mae'r cyhoedd yn eu deall yn iawn. Rwyf wedi ymdrechu i ddrafftio Bil mewn Cymraeg Clir a Plain English. Nid wyf am wneud y Bil yn orgymhleth drwy ddiffinio termau sy'n ddealladwy'n eang.

Yn olaf, mae'r Gweinidog yn gofyn hefyd, o dan adran 9(1)(d), a yw mynediad am ddim i'r rhyngrwyd drwyddi draw i gael ei hwyluso, ynteu ai dim ond fynediad at addysg ariannol a gwasanaethau rheoli. Yr olaf yw'r ateb ac yn fy marn i mae'r Bil yn glir ar y pwynt hwn.

Hefyd, hoffwn nodi bod y Gweinidog yn addef yn ei llythyr i'r Pwyllgor fod gan lyfrgelloedd hawl i godi am fynediad i'r rhyngrwyd ar hyn o bryd. Dywed y "gallai'r sefyllfa honno newid" pe bai Gweinidogion yn penderfynu diwygio'r rheoliadau perthnasol i rwystro llyfrgelloedd rhag codi am fynediad i'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi unrhyw arwydd na sicrwydd bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu diwygio'r rheoliadau yn y ffordd hon. Felly, mae fy Mil i yn darparu mesur diogelu ychwanegol ar gyfer y dyfodol fel bod y rhai y mae angen iddynt ddefnyddio cyfleusterau awdurdod lleol i gyrchu at addysg ariannol a gwasanaethau rheoli ar-lein yn gallu gwneud hynny heb orfod talu.

*Lefel y rhagnodi*

Nodaf fod Canolfan Cydweithredol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn rhybuddio rhag un ateb sy'n addas i bawb o ran sut mae angen i awdurdodau lleol ymdrin â chynhwysiant ariannol. Ar y llaw arall, rwy'n ymwybodol bod Cyngor Ar Bopeth wedi awgrymu nad yw'r Bil yn manylu digon ar sut y gellir cryfhau cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd ariannol mewn lleoliadau cymunedol.

Efallai y byddai o fudd i'r Pwyllgor pe bawn yn egluro'r drefn a nodir yn adran 9 o'r Bil. Y nod yw rhestru rhai elfennau y dylai pob strategaeth cynhwysiant ariannol eu cynnwys yn fy marn i, gan eu bod yn faterion o bwys o safbwynt gallu ariannol y credaf y dylai pob awdurdod lleol roi sylw iddynt. Fodd bynnag, bydd gan yr awdurdodau lawer o hyblygrwydd wedyn i deilwrio'u strategaethau yn ôl yr angen lleol a phenderfynu drostynt eu hunain sut mae cyflawni a gweithredu'r elfennau hynny o'u strategaethau orau. Yn fwriadol, nid wyf wedi rhagnodi sut y dylai awdurdod lleol wneud hyn gan fy mod yn ymwybodol o ymatebion i'm hymgynghoriad a oedd yn pwysleisio'r angen i gadw hyblygrwydd lleol yn y cyswllt hwn.

*Safonau cynhwysiant ariannol*

Nodaf i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol gyfeirio yn ei dystiolaeth at y Strategaeth Gallu Ariannol y mae wedi'i drafftio'n ddiweddar ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Yn y cyswllt hwn mae'n cyfeirio'n benodol at y Safon Genedlaethol Cynhwysiant Ariannol y mae'n gobeithio'i datblygu er mwyn mesur effaith ymyriadau gallu ariannol mewn modd cyson. Yr unig beth y byddwn yn ei nodi yma yw nad wyf yn gweld unrhyw wrthdaro tebygol rhwng gofyniad ar awdurdod lleol i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol a'i fod ar yr un pryd yn mabwysiadu'r Safon Genedlaethol fel arf gwerthuso, os yw hynny'n cael ei ystyried yn fuddiol neu'n briodol. Hefyd, ni allaf weld unrhyw reswm pam na ellir ymdrin â'r math hwn o ddatblygiad mewn canllawiau yn y dyfodol ynghylch strategaethau cynhwysiant ariannol, os mai i'r cyfeiriad hwnnw yr ydym yn mynd.

**Adran 11 (dyletswydd gofal ar awdurdodau lleol tuag at blant yr arferent ofalu amdanynt yn parhau o ran addysg ariannol)**

Rwy'n deall bod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi awgrymu'r posibilrwydd o ddyblygu gyda deddfwriaeth bresennol fel *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a basiwyd yn ddiweddar. Mae'r Gweinidog yn iawn i nodi bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd gofal sy'n parhau o dan y Ddeddf

honno, ond y pwynt tyngedfennol yw bod y Bil yn ymestyn y dyletswyddau hyn fel eu bod yn gymwys yn benodol o safbwynt addysg ariannol (ac nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd). Mae'r Bill felly yn ystyried *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ac yn defnyddio'r diffiniadau yn y Ddeddf honno fel sail i ddarparu'r warchodaeth ychwanegol hon i blant oedd yn arfer derbyn gofal.

**Adran 12 (ffynonellau cyngor)**

Rwy'n ymwybodol o bryderon ynglŷn ag adran 12, ac yn benodol y gallai rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i gynnwys gwybodaeth am ble i gael cyngor olygu ei fod yn cymeradwyo darparwyr cyngor penodol. Cofiaf hefyd imi addo darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr adran hon o'r Bil.

Fel y nodaf uchod yng nghyswllt adran I understand that the Minister for Communities and Tackling Poverty also has concerns about section 12 of the Bill not achieving its policy intention in that an authority could decide not to provide advice under section 12(2), which would mean that reasonable advice would not be available in that area.

9(1), nid oes a wnelo fy Mil â hyrwyddo cynnyrch ariannol neilltuol; mae a wnelo â hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae llythyr y Gweinidog yn cyfeirio hefyd at waith sydd ar y gweill i sefydlu Rhwydwaith Gwasanaethau Cynghori Cenedlaethol, yn cynnwys safonau ar gyfer darparu cyngor. Cyfeiria hefyd at y perygl o ddyblygu gwaith sy'n cael ei wneud yn barod gan Ganolfan Cydweithredol Cymru (drwy ei wefan SectionMoneyMadeClear) a gwybodaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

I lawer o bobl y mae arnynt angen cyngor ariannol, ni wnaf ond tynnu sylw at y ffaith mai'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml fydd mannau cyswllt awdurdodau lleol – boed hynny ynglŷn â'r dreth gyngor, gofal cymdeithasol, ymholiadau tai ac ati. Ni welaf unrhyw reswm pam na allai awdurdod lleol gyflawni'i ddyletswyddau o dan adran 12(1) drwy gyfeirio dinasyddion at gyngor tebyg i'r hyn y mae'r Gweinidog yn ei gymell. Y peth pwysig ei nodi yw nad yw pobl efallai yn gwybod bod cyngor o'r fath yn bod. Oherwydd eu rôl ganolog yn darparu gwasanaethau amrywiol eraill ar y pwynt cyswllt cyntaf, credaf y dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i gyfeirio pobl at y cyngor hwnnw, a dyna sail y darpariaethau yn adran 12.

Yn y cyfamser, mae adran 12(2) yn bŵer i awdurdodau lleol i ddarparu cyngor i unigolion ynglŷn â rheolaeth ariannol. Wrth gwrs, mae darparu cyngor o'r math hwn yn cael ei reoleiddio a byddai angen i unrhyw awdurdod lleol sy'n gwneud hynny fodloni'r gofynion rheoleiddio. Ni chaiff unrhyw awdurdod lleol ei orfodi i arfer y pŵer hwn. Y cyfan yr wyf am ei wneud yw rhoi'r opsiwn i awdurdodau lleol i wneud hynny os ydynt yn dymuno. Fodd bynnag, rwy'n derbyn fod gan rai Aelodau o'r Pwyllgor amheuon efallai ynglŷn ag adran 12 yn y cyswllt hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at weld eich Adroddiad Cyfnod 1. Ar ôl imi ei weld, rhoddaf ystyriaeth bellach i'r mater hwn.

**Adran 13 (gofyniad ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn darparu cyngor ar reolaeth ariannol i fyfyrwyr)**

Rwy'n deall bod gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryderon ynglŷn â'r adran hon o'r Bil a chofiaf i'r Pwyllgor godi hyn mewn cwestiynau imi ar 17 Medi 2014. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at ddiffyg perthynas uniongyrchol rhwng awdurdodau lleol ac addysg bellach ac uwch er mwyn i awdurdodau lleol gyflawni'u dyletswyddau o dan y Bil. Nid yw adran 13 ond yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol ac ni fyddai gofyn iddynt wneud dim y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl o fewn rheswm. Gwn fod llawer o sefydliadau pellach ac uwch eisoes yn hyrwyddo llythrennedd ariannol ymysg eu myfyrwyr. Rwy'n croesawu hyn ac nid oes unrhyw beth yn y Bil a fyddai'n tanseilio gwaith da y sefydliadau hynny.

Mae'r Gweinidog o'r farn hefyd fod risg y gallai adran 13 gael ei gweld fel ymgais i ymyrryd ag egwyddorion sylfaenol annibyniaeth ac ymreolaeth sefydliadau addysg bellach ac uwch. Rwy'n llwyr ymwybodol o oblygiadau *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014* yn y cyswllt hwn a'r cyfyngiadau y mae mater dosbarthiadau ONS yn eu creu o ran cyrraedd myfyrwyr ôl-16. Dyna'n union pam nad yw'r Bil yn rhoi dyletswyddau ar y sefydliadau hynny eu hunain.

Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog hefyd yn amlygu'r ffaith na fydd awdurdodau lleol yn gyfrifol mwyach am weinyddu ceisiadau am gymorth myfyrwyr o flwyddyn academaidd 2015/16 wrth i Cyllid Myfyrwyr Cymru gael ei foderneiddio. Awgrymodd y Memorandwm Esboniadol hyn fel opsiwn posibl y gallai awdurdodau lleol ei ystyried fel rhan o gyflawni'u dyletswydd o dan adran 13. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod na fydd yr opsiwn hwn ar gael i awdurdodau lleol gan fod y cyfrifoldebau i ystyried cymhwystra am gymorth myfyrwyr yn trosglwyddo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Rwy'n ystyried opsiynau'n ymwneud â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn lledaenu gwybodaeth, gyda'r nod o hyrwyddo llythrennedd ariannol i ymgeiswyr am gyllid myfyrwyr. Nodais felly â diddordeb gwestiwn y Pwyllgor i'r Gweinidog ar 1 Hydref, er fy mod yn siomedig ag ymateb digon negyddol y Gweinidog.

Mae'r Gweinidogion wedi codi pryderon ynglŷn â'r diffyg diffiniadau yn adran 13. Nid wyf am lethu'r Bil â gormod o ddiffiniadau dianghenraid. Rwyf wedi ymdrechu i ddrafftio Bil mewn Cymraeg Clir a Plain English. Ni welaf yr angen i ddiffinio'r termau 'prifysgol' a 'chorfforaeth addysg bellach', ond rwy'n barod i ystyried diwygio'r Bil i ddarparu diffiniadau os yw'r Pwyllgor yn credu y byddai hynny'n beth da.

**Goblygiadau ariannol**

*Adran 4 (y gofyniad cwricwlwm sylfaenol o ran addysg ariannol)*

Gwerthfawrogir bod Llywodraeth Cymru wedi darparu costiadau i'r Pwyllgor ar ffurf amcangyfrifon o'r costau untro a chostau darparu deunyddiau addysgu ar gyfer cynnwys newydd dros gyfnod o bedair blynedd.

Roeddwn wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru o'r blaen i gael costiadau i'w bwydo i'r Memorandwm Esboniadol ynghyd â gwybodaeth am swyddogaethau a chostau Uned Addysg Ariannol Cymru o 2009 tan i'r uned ddod i ben ym mis Awst 2013. Fodd bynnag, fel y dywedais yn y Memorandwm Esboniadol, ni ddaeth unrhyw wybodaeth o'r fath i law oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae'n anodd ceisio dilysu'r ffigurau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu gan nad oes unrhyw esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys wrth eu cyfrifo, ar ffurf dadansoddiad costau. Mae'n ymddangos bod y costau untro amcangyfrifedig o £400,000 yn llythyr y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ailadrodd yr amcangyfrifon costau yng *Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013*, sef yr is-ddeddfwriaeth a luniwyd gan Lywodraeth Cymru i ddod â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i rym. Fel yr amlygwyd ym Mharagraff 285 o'r Memorandwm Esboniadol, rhoddodd y Gorchymyn hwn amcangyfrif o oddeutu £400,000 am gost untro datblygu a chyhoeddi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ei hun.

Roedd cwmpas y gwaith hwnnw'n llawer helaethach na'r hyn a ragwelir gan y Bil gan ei fod yn cyflwyno elfennau newydd i'r cwricwlwm a oedd yn llawer ehangach na dim ond addysg ariannol. Felly, nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn amcangyfrif cywir o effaith y Bil hwn a'n hamcangyfrif gorau ni yw na ddylai costau datblygu'r cynnwys newydd fod yn fwy na £175,000.

Mae'n ymddangos bod y Gweinidog ei hun yn awgrymu y byddai'r gost yn llai na'r £400,000 y mae'n ei ddyfynnu gan ei fod yn amau na fyddai angen gwneud unrhyw beth mwy na'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r fframwaith rhaglenni astudio. Mae'r Gweinidog hefyd yn cyfeirio at angen i ddyblygu, mewn rhyw ffordd, y broses cynhyrchu deunyddiau a gâi ei harfer gan Uned Addysg Ariannol Cymru gynt; hyn er i'r Pwyllgor gael ei hysbysu ym mis Hydref 2013 fod yr adnoddau a'r deunyddiau a gâi eu defnyddio gan yr uned wedi cael eu darparu i ysgolion a bod mecanwaith hynod o gryf i wreiddio'r sgiliau ariannol hynny yn y cwricwlwm craidd.

Mae'r Gweinidog yn nodi cost o £800,000 dros bedair blynedd i gynhyrchu deunyddiau addysgu newydd ond credaf fod hyn yn camddeall bwriad y Bil sef peidio â dadwneud yr hyn y mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd eisoes yn ei ddarparu. Un o fwriadau'r Bil yw tynnu deunyddiau a chanllawiau presennol ynghyd, ac ar sail yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddweud wrthym dylai'r rheini fodoli'n barod i raddau helaeth.

A throi at gostau gweithredu'r hawl gwricwlaidd, sef rhan fwyaf y costau amcangyfrifedig yn y Memorandwm Esboniadol. Dywed y Gweinidog fod hyn yn 'ffordd ddrud iawn o drin arian Llywodraeth Cymru mewn unrhyw amgylchiadau'. Hoffwn ailadrodd bod yr amcangyfrif blynyddol o £3.4 miliwn a roddir yn y Memorandwm Esboniadol yn ffigur uchel iawn wedi'i seilio ar wybodaeth a ddarparwyd gan un awdurdod lleol, a chredwn fod y wybodaeth wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y byddid yn darparu cwricwlwm newydd sbon yn hytrach nag adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli. Ategir hyn gan dystiolaeth ADEW a ddywedodd wrth y Pwyllgor fod elfen o gyfrif ddwywaith, sy'n awgrymu eu bod yn credu y bydd y costau gwirioneddol yn llai na'r amcangyfrif.

*Adran 6 (y gofyniad i ddarparu adroddiad ar addysg ariannol)*

Rwyf wedi ymdrin â sawl mater ynglŷn â'r adran hon o'r Bil yn gynharach yn y llythyr hwn. Mae'r Gweinidog yn amlygu'r gost o gynnwys hyn mewn arolygiadau, sef un o'r ddau opsiwn a awgrymir yn y Memorandwm Esboniadol. Ni ragnodir hyn ar wyneb y

Bil a mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu, er, fel y dywedwyd uchod, nad oes gennyf fi unrhyw wrthwynebiad i astudiaeth ac adroddiad thematig sef un o'r opsiynau yr wyf wedi'u hawgrymu. Mae'r ddau opsiwn wedi'u costio yn y Memorandwm Esboniadol ond byddai opsiwn adroddiad thematig yn costio llai (£40,000 yn hytrach na £160,000 y flwyddyn, a thrwy ddiwygio adran 5 i'w gwneud yn ofynnol darparu adroddiad bob tair blynedd yn hytrach na phob blwyddyn byddai hynny'n gostwng y gost i £40,000 bob trydedd flwyddyn.

*Adran 8 (y ddyletswydd i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol)*

Yn ei llythyr gofynnodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a fyddai unrhyw gostau pan fyddai awdurdodau lleol yn ymgynghori ar eu strategaethau cynhwysiant ariannol neu'n eu cyhoeddi. Holai hefyd pa fewnbwn fu gan gyrff trydydd sector wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y gwêl yn briodol cyn cyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol. Defnyddiwyd enghraifft ymarfer da o Gyngor Dinas a Sir Abertawe fel esiampl a sail i'r amcangyfrifon. Rhagdybiwyd y caiff strategaeth cynhwysiant ariannol ei datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Yn sgil trafodaethau â'r awdurdod hwn, caniatawyd amser i gael mewnbwn gan sefydliadau eraill a'r trydydd sector, ynghyd ag amser i'r strategaeth cynhwysiant ariannol gael ei drafftio ac i gytuno arni. Mae manylion y fethodoleg a'r cyfrifiadau wedi'u cynnwys ym mharagraffau 321 i 337 o'r Memorandwm Esboniadol. Seiliwyd y costau ar y sefyllfa gyfredol gyda 22 o awdurdodau lleol. Pe bai'r nifer o awdurdodau lleol yn gostwng cyn i'r Bil gael ei weithredu, byddai hyn yn arwain at ostyngiad mewn costau.

Mae cyrff trydydd sector wedi cael mewnbwn i'r broses ymgynghori, ac rwyf wedi cael llawer o drafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn eu tro wedi bwydo i'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cafodd cyrff trydydd sector eu gwahodd hefyd i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor sy'n craffu ar y Bil.

*Costio opsiynau amgen*

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn darparu amcangyfrif o gostau opsiwn 2 (gweithredu heb ddeddfu) gan na fyddai'r opsiwn hwn yn cyflawni amcanion y Bil. Ni chafodd ei ystyried yn fanwl felly unwaith yr oedd penderfyniad cychwynnol wedi ei wneud i beidio â dilyn y trywydd hwn. Mae'n arfer gweddol safonol i Filiau o'r fath

ddarparu costau ar gyfer yr opsiwn a ffefrir yn unig ar Gyfnod 1. Dyna sydd wedi digwydd gyda'r holl Filiau Aelodau diweddar er bod rhai enghreifftiau lle mai is-opsiynau sydd ychydig yn wahanol wedi'u costio, megis y dewis o systemau gweinyddol fel rhan o *Fil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)*. Hefyd, yn fy Mil i, rwyf wedi costio mwy nag un opsiwn ar gyfer y gofyniad i ddarparu adroddiadau ar addysg ariannol.

Yn y pen draw, credaf fod yn rhaid cydnabod mai cymorth gan dîm craidd bach sydd ar gael i Fil Aelod o'i gymharu ag adnoddau ehangach Llywodraeth Cymru er enghraifft.

*Costau cyfle*

Mae papur y Gweinidog yn awgrymu nad oes costau cyfle wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, y gwrthwyneb yw'r gwir. O ran addysg ariannol, fel y dywedwyd uchod, credwn fod costau rhoi'r cwricwlwm ar waith wedi'u gorddatgan. Amcangyfrifwyd costau bras o ran amser hyfforddi ac addysgu. Fel y mae'r Gweinidog yn awgrymu'n briodol, ni fyddai angen i hyn fod yn ddarpariaeth cwbl newydd, felly byddai'r costau gwirioneddol yn is. Eto, ategwyd hyn gan sylwadau ADEW i'r Pwyllgor mewn tystiolaeth lafar.

*Buddion*

O ran y buddion, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn ceisio amcangyfrif ffigur pendant i fuddion y Bil. Yn hytrach ceisir dangos bod y buddion yn debygol o fod yn llawer mwy na'r costau yn y tymor hir. Bydd effaith wirioneddol y Bil yn dibynnu ar lefel y newid yn y cwricwlwm o'i chymharu â'r ddarpariaeth bresennol a'r newidiadau arfaethedig sydd eisoes ar y gweill.

Fodd bynnag, nid yw beirniadaeth dechnegol y Gweinidog o astudiaethau unigol a ddyfynnwyd yn y Memorandwm Esboniadol yn newid y dystiolaeth helaeth y bydd y mewnbwn adnoddau cymharol fach sy'n ofynnol i weithredu'r Bil hwn yn dod â buddion sylweddol i bobl Cymru sy'n llawer mwy na'r costau.
Edrychaf ymlaen at glywed yn ôl oddi wrthych.

Bethan Jenkins AC Gorllewin De Cymru

Aelod Cynulliad Plaid Cymru - Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru Assembly Member - South Wales West

Eitem 3.1

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/MD/0959/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2 Hydref 2014

Annwyl Ann,

**Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)**

Roedd eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanathau Cymdeithasol blaenorol Gwenda Thomas AC i gynnig sylwadau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a gyflwynwyd gan Bethan Jenkins AC. Rydw i yn ymateb yn fy rol fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae eich llythyr yn ymdrin â thri chategori eang sy'n cael eu cynnwys yn y Bil; a byddaf yn ymateb i bob un yn ei dro.

- **Bydd y Bil yn gwella gallu ariannol ymysg plant a phobl ifanc oedran ysgol (rhwng 8 ac 16 oed) drwy ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol y caiff addysg ariannol ei chynnwys yn y cwricwlwm ysgol (adrannau 4 i 7 yn y Bil).**

Mae adrannau 4, 5 a 6 y tu hwnt i'm portffolio, a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, mae adran 7 yn bwriadu rhoi adran ychwanegol ar wyneb Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ("y Ddeddf").

Nid oes gofyn am ddeddfwriaeth ychwanegol i gyflawni uchelgais y polisi hwn mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny sy'n gadael gofal. Mae pwerau deddfwriaethol eisoes mewn bodolaeth sy'n gosod gofyniad ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu addysg ariannol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal; caiff y ddeddfwriaeth gyfredol, sy'n deillio o rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Plant 1989, ei chynnwys yn yr adrannau canlynol:

- Adran 23A(3) – *yr awdurdod cyfrifol a phlant perthnasol;*
- Adran 23B(5), (6), (8)(c) a (10) – *swyddogaethau ychwanegol yr awdurdod cyfrifol mewn perthynas â phlant perthnasol;*
- Adran 23D(2) – *ymgynghorwyr personol;*
- Adran 23E – *cynlluniau llwybr;*
- Adran 24B(6) – *cyflogaeth, addysg a hyfforddiant;*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

- Paragraff 19B(2), (3), (7) ac (8) o Atodlen 2 – *paratoi i beidio â derbyn gofal.*

Mae'r darpariaethau hyn yn cael eu cynnwys bellach hefyd yn y Ddeddf, yn yr adrannau canlynol:

- Adran 104 – *pobl ifanc sydd â'r hawl i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115;*
- Adran 106 – *ymgynghorwyr personol;*
- Adran 107 – *asesu llwybrau a chynlluniau llwybrau: yn gyffredinol,* ac
- Adran 116 – *darpariaeth atodol ynghylch cymorth ar gyfer pobl ifanc mewn addysg bellach neu uwch.*

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a'r diwygiad a gynigir i adran 78 o'r Ddeddf, mae eisoes pŵer eang iawn yn adran 87 o'r Ddeddf i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau – *rheoliadau am blant sy'n derbyn gofal*

- **Bydd y Bil yn cryfhau rôl awdurdodau lleol i helpu pobl i osgoi anhawster ariannol, drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10 yn y Bil).**

Mae adrannau 8 i 10 yn rhoi dyletswyddau cyffredinol i awdurdodau lleol, ac maent y tu hwnt i gyfrifoldebau fy mhortffolio. Maent yn dod o dan bortffolios y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Bydd y Bil yn rhoi dyletswyddau i awdurdodau lleol o ran rhoi cyngor a threfnu cyngor ar reolaeth ariannol, yn gyffredinol ac yn benodol o ran plant 16 neu 17 oed sy'n derbyn gofal, plant a fu'n derbyn gofal yn flaenorol, a myfyrwyr (adrannau 11 i 13 yn y Bil).**

Mae adran 11 yn targedu plant sy'n derbyn gofal yn benodol. Yn fy ymateb i'r categori eang cyntaf, ac yn arbennig o ran adran 7, rwy wedi egluro'r dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol yn Neddf Plant 1989, ac y bydd y dyletswyddau hynny'n cael eu trosglwyddo i Ran 6 o'r Ddeddf. Gallant gael eu cryfhau os bydd angen o dan y rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n cefnogi Rhan 6 o'r Ddeddf.

Byddwn hefyd yn poeni am gwmpas y Bil mewn perthynas â'i ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny sy'n gadael gofal. Rwy wedi nodi'r gwahanol ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny sy'n gadael gofal yn cael eu disgrifio yn y Memorandwm Esboniadol. Mae hynny'n rhoi'r argraff nad oes sail resymegol o ran dewis y bobl ifanc hynny y mae'r Bil yn ceisio darparu ar eu cyfer.

Mae'r pryderon hynny'n codi yn y ddarpariaeth a wnaed yn adran 11 o'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer categorïau 1, 2 a 3. Mae pennawd yr adran yn anghywir, fel y gwelwch o'r esboniad o'r categorïau yn y paragraffau canlynol. Ond mae hynny'n pwysleisio'r gamddealltwriaeth amlwg o'r categorïau a'r ddarpariaeth a wnaed gan y Ddeddf a'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod gan y Ddeddf ar awdurdodau lleol.

Mae pobl ifanc Categori 1 yn sicr yn derbyn gofal ac yn blant, gan eu bod yn iau na 18 oed. Mae pobl ifanc Categori 2 yn blant, ond nid ydynt yn derbyn gofal, ac nid yw pobl ifanc Categori 3 yn derbyn gofal nac yn blant.

Os yw'r Bil yn ceisio targedu plant sy'n iau na 18 oed, neu sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal (yn ôl yr ystyr y mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol), yna byddai angen cynnwys cyfeiriadau at y bobl ifanc berthnasol yng Nghategorïau 5 a 6 (ni fyddai pobl ifanc yng Nghategori 4 yn blant).

Os yw'r Bil yn ceisio cynnwys darpariaeth ychwanegol ar gyfer plant / pobl ifanc o'r fath ar sail eu bod yn ymddangos yn fwy agored i niwed yn y maes hwn oherwydd eu hamgylchiadau a'r ffaith eu bod yn derbyn gofal / wedi gadael gofal, yna byddai'n rhaid edrych eto ar y categorïau sydd wedi'u pennu er mwyn sicrhau bod adran 11 yn rhoi'r sylw iawn iddynt (a diwygio'r teitl yn briodol).

Mae adrannau 12 a 13 yn rhoi dyletswyddau cyffredinol i awdurdodau lleol, ac maent y tu hwnt i'm portffolio; mae adran 12 yn dod o dan bortffolios y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, tra bo'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n gyfrifol am adran 13.

Y ddwy neges yr hoffwn eu cyfleu i'r pwyllgor yw yn gyntaf bod y pŵer eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Plant 1989 a'r Ddeddf i gau unrhyw fwlch sy'n ymddangos mewn perthynas â'r ddarpariaeth neu ansawdd y ddarpariaeth addysg ariannol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Nid oes angen i'r ddarpariaeth ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn fod yn wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal nac yn gadael gofal o dan y Bil.

Yr ail neges yw bod y sail resymegol ar gyfer dewis pobl ifanc o dan adran 11 yn aneglur, ac mae angen diwygio honno.

I gloi, felly, rwy o'r farn nad oes angen darpariaeth ddeddfwriaethol ychwanegol yn y Bil arfaethedig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – LF-LA-0926-14

Ann Jones AM
Chair of Children, Young People and Education Committee,
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

1 October 2014

Dear Ann.

**Financial Education and Inclusion (Wales) Bill**

Your letter of 24 July, to my predecessor, the then Minister for Local Government and Government Business, invited her to submit written evidence on the Financial Education and Inclusion (Wales) Bill as introduced by Bethan Jenkins AM. I am responding to your letter as Minister for Public Services.

In responding I am conscious the Minister for Communities and Tackling Poverty is providing oral evidence to the Committee which will include the Well-being and Future Generations (Wales) Bill, and our approach to integrated planning on a local level based on robust assessments of need.

The Bill sets out the policy intent:

- that Local Authorities must consult on, publish and report and a Financial Inclusion strategy.

The provision in this Bill requiring Local Authorities to adopt a financial inclusion strategy would be inconsistent with our policy of integrating plans and partnerships in order to reduce bureaucracy for public service bodies, enabling resources to be focussed on the delivery of services.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

I refer the Committee in particular to arrangements specified in Part 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill which will place a duty on specified public bodies to engage in integrated community planning to improve the well-being of the people, communities and areas they serve. This will include the requirement to produce an assessment of the state of economic, social and environmental well-being of the area. The local well-being assessments will also be required to 'include an analysis of the state of well-being of any category or persons in the area whom the board considers to be vulnerable or otherwise disadvantaged'.

As a key determinant of both economic and social well-being I would expect issues of financial inclusion to be reflected in this assessment and considered when formulating integrated plans for services tackling poverty, housing issues and homelessness; mitigating the impact of welfare reform; and local health and social care. I prefer provisions which respect the autonomy of Local Authorities and other local public service partners, thus enabling them to make decisions based on an assessment of need and understanding of the locality they serve, to the approach proposed in the draft Financial Education and Inclusion (Wales) Bill.

Many Local Service Boards are already adopting new approaches to financial inclusion linked to the tackling poverty agenda. In Flintshire, Conwy, Denbighshire and Ceredigion, there are specific projects which tackle financial inclusion which have been informed by the needs assessments and priorities in the Single Integrated Plans in those areas.

I would also like to bring to the Committee's attention concerns in relation to the Regulatory Impact Assessment (RIA) completed for the Financial Education and Inclusion (Wales) Bill. In considering costs on Local Authorities we need to take account the differing characteristics in terms of demographic, social, economic and physical characteristics, for example, population size and profile, levels of deprivation and rurality. Basing the costs in the RIA on an anonymous Authority does not accurately reflect this.

As the Bill also proposes a new statutory requirement to produce a strategy, consult and report, I would argue that this constitutes a new burden on Authorities and should therefore be fully funded. I am also unclear on how the provisions are stated as 'cost neutral' and further detail is required to explain the savings to cover the administrative costs.

I am concerned that the impact on Authorities' reviews of services in light of financial challenges has not been fully considered in the assessment.

I hope the above comments are helpful to the Committee in their considerations.

Best wishes,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon